CFfG/2021/ Cyfarfod 1af

**Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16:30 ddydd Mawrth 26 Ionawr 2021 trwy gyfrwng Microsoft Teams.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mrs Ustus Jefford | Dirprwy Gadeirydd |
| Aaron Sollis | Asesydd (Arolwg Ordnans) |
| Huw Vaughan Thomas | Comisiynydd |
| Sam Hartley | Comisiynydd |
| Shereen Williams | Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Tom Jenkins | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Rhydian Fitter | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| David Carr | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |

**Amser Dechrau:** 16:30
**Amser Gorffen:** 17:40

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

1.1. Agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd a chroesawyd Rhydian Fitter i'r Comisiwn.

1.2. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Neil Park, Asesydd (y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

3.1. **Cytunodd** y Comisiwn ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mawrth 1 Rhagfyr 2020, yn amodol ar fân newidiadau.

## 4. MATERION YN CODI

4.1. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau ar Faterion yn codi o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 15 Medi 2020.

**Mater 1 – Diweddariad ar Staffio**

4.2. Dechreuodd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd, Rhydian Fitter, yn ei swydd ar ddechrau mis Ionawr. Roedd y cyfweliadau ar gyfer y ddwy rôl Cymorth Tîm (graddfa AO) wedi'u cwblhau a disgwylir y byddant yn dechrau ar 1 Mawrth 2021.

**Mater 2 – Defnyddio Fideogynadledda ar gyfer Gwrandawiadau Cyhoeddus**

4.3. Roedd trafodaethau'n parhau â'r Comisiwn Ffiniau i Loegr (BCE) ynghylch ffrydio gwrandawiadau'n fyw. Y cyngor cyfreithiol a dderbyniodd yr Ysgrifenyddiaeth oedd y gallai fod problem â recordiadau o dystiolaeth a roddwyd mewn gwrandawiadau a gaiff eu gosod ar wefan y Comisiwn pe bai'r unigolyn a roddodd y dystiolaeth yn tynnu'n ôl eu caniatâd i'r recordiad gael ei gyhoeddi.

**Mater 3 – Rhannu Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)**

4.4. Ystyriwyd y dylid newid y broses o rannu data'r SYG rhwng y pedwar Comisiwn yn y dyfodol er mwyn ei gwneud yn awtomatig yn hytrach nag ar gais.

## 5. COFRESTR RISG

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Ionawr 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, a **nodwyd** bod y newidiadau a gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi'u gwneud.

5.2. O ran CFfG 4, adroddwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi derbyn dyfynbris gan asiantaeth recriwtio ar gyfer ymgymryd â recriwtio Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer y gwrandawiadau cyhoeddus. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y dyfynbris yn sylweddol uwch na'r disgwyl. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhoi ystyriaeth bellach i drefniadau eraill ar gyfer recriwtio Comisiynwyr Cynorthwyol.

5.3. Cymeradwywyd y gofrestr risg yn amodol ar ddiwygio CFfG 4 ynghylch recriwtio Comisiynwyr Cynorthwyol.

## 6. CANLLAW I'R AROLWG

6.1. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylai'r Canllaw gynnwys cyfeiriad at etholaethau Senedd Cymru gan ei gwneud yn glir nad oedd y rhain wedi'u cynnwys yn arolwg y Comisiwn o etholaethau Seneddol. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifennydd yn drafftio paragraff newydd yn y Canllaw i esbonio hyn. Ystyriwyd hefyd y gellid rhoi dolen ar wefan CFfG i wybodaeth ar wefan Senedd Cymru ynghylch ei hetholaethau.

6.2. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn adolygu a diweddaru'r Canllaw i'r Arolwg.

6.3. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai siart lif yn dangos y weithdrefn a chamau'r arolwg yn ychwanegiad defnyddiol at yr atodiadau i'r Canllaw, ac y gellid ei gosod ar wefan CFfG hefyd. **Cytunwyd** y bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn llunio siart lif yr arolwg ar gyfer y Canllaw.

6.4. Holodd y Dirprwy Gadeirydd os byddai modd hysbysu rhanddeiliaid am gamau'r arolwg wrth iddynt ddigwydd yn hytrach na dibynnu ar randdeiliaid i edrych ar y wefan. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys system ar wefan CFfG lle gallai rhanddeiliaid gofrestru ar gyfer derbyn hysbysiad pan fydd pob cam o'r arolwg yn dechrau.

6.5. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn edrych ar y posibilrwydd o ddiweddaru gwefan CFfG er mwyn galluogi hysbysiadau.

## 7. ASESU EFFEITHIAU

7.1. Nodwyd bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cyfeirio at gwestiwn 7 ond nid oedd cwestiwn 7 ar y ffurflen. Esboniodd yr Ysgrifennydd ei bod wrthi'n drafftio'r asesiad. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifennydd yn adolygu ac yn cwblhau'r asesiad.

7.2. Ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, roedd y Comisiwn o'r farn y bydd angen ystyriaeth bellach ynghylch faint o bwys y mae angen ei roi i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth lunio cynigion. **Cytunwyd** y bydd ymgynghori â'r Comisiynau Ffiniau eraill ynghylch eu safbwynt ar ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth lunio eu cynigion.

7.3. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn gofyn i'r comisiynau ffiniau eraill faint o bwys y maent yn ei roi i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth lunio eu cynigion.

7.4. Roedd y Comisiwn o'r farn y bydd angen gwerthuso'r effaith ar hygyrchedd hefyd, o ystyried y newid i weithdrefnau gwrandawiadau cyhoeddus. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cynnwys hygyrchedd fel rhan o'u proses asesu effaith.

## 8. CYFARFODYDD BRIFFIO CYCHWYNNOL AR GYFER RHANDDEILIAID ALLWEDDOL

8.1. Roedd y Comisiwn o'r farn, o ystyried y tebygolrwydd y bydd y cyfarfodydd briffio cychwynnol yn cael eu cynnal ar-lein, y byddai'n ddymunol cael gwybod y cwestiynau ymlaen llaw. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifenyddiaeth

yn cynnwys cais am gwestiynau ymlaen llaw yn y gwahoddiadau a anfonir at y pleidiau gwleidyddol, rhanddeiliaid allweddol eraill ac ASau.

8.2. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn gofyn am gwestiynau briffio cychwynnol ymlaen llaw gan randdeiliaid.

8.3. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cysylltu â'r comisiynau ffiniau eraill i ganfod pa gwestiynau a ofynnwyd yn eu cyfarfodydd briffio cychwynnol.

8.4. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn cysylltu â'r comisiynau ffiniau eraill ynghylch cwestiynau a ofynnwyd yn eu cyfarfodydd briffio cychwynnol.

8.5. **Cytunwyd** y bydd y cyfarfod briffio cychwynnol â phleidiau gwleidyddol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cael ei gynnal yn gyntaf, ac y bydd y cyfarfod briffio cychwynnol ag ASau yn cael ei gynnal wythnos yn ddiweddarach. **Cytunwyd** y bydd y Dirprwy Gadeirydd, Aelodau ac aelodau'r Ysgrifenyddiaeth yn mynychu'r cyfarfodydd briffio cychwynnol.

8.6. **Cytunwyd** y bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn llunio'r sleidiau ar gyfer y cyfarfodydd briffio cychwynnol. **Cytunwyd** y bydd y sleidiau'n cynnwys cyfeiriad at y ffaith na fydd arolwg CFfG yn cael unrhyw effaith ar ffiniau etholaethau Senedd Cymru.

8.7. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn llunio'r sleidiau ar gyfer y cyfarfodydd briffio cychwynnol.

8.8. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhoi gwybod i'r Dirprwy Gadeirydd am ddyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd briffio cychwynnol.

8.9. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn rhoi gwybod i'r Dirprwy Gadeirydd cyn gynted ag y bo modd am ddyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd briffio cychwynnol.

## 9. ADRODDIAD GWERSI A DDYSGWYD 2018 – DIWEDDARIAD AR YR ARGYMHELLION

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Ionawr 2021 gan yr Ysgrifennydd, a **nodwyd** y cynnydd ar weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad gwersi a ddysgwyd.

## 10. UNRHYW FUSNES ARALL

10.1. Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai'n annoeth datgan yn y Canllaw i'r Arolwg y bydd gwrandawiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal am ddiwrnod yn unig, heb wybod lefel y diddordeb. Hefyd, bydd angen asesu'r costau ychwanegol pe bai angen i wrandawiad barhau am ddiwrnod ychwanegol. **Cytunwyd** y bydd angen i'r Ysgrifennydd wneud penderfyniad ar y mater

hwn yn seiliedig ar yr ymatebion i'r cynigion cychwynnol, a hysbysu'r Comisiwn yn unol â hynny.

10.2. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau pa mor debygol y bydd angen diwrnodau ychwanegol ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus, yn seiliedig ar y sylwadau a dderbynnir ynghylch y cynigion cychwynnol.

10.3. Holodd yr Ysgrifennydd beth fyddai polisi'r Comisiwn ar dderbyn sylwadau ynghylch y cynigion cychwynnol yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig. Nodwyd mai'r sefyllfa swyddogol ar gyfer arolygon blaenorol oedd y byddai'r Comisiwn ond yn ystyried sylwadau sy'n ymwneud â'r cynigion diwygiedig. **Cytunwyd** na fydd y Comisiwn yn cymryd safiad ar y mater hwn yn gyhoeddus.

10.4. Holodd Sam Hartley os oedd cynllun cyhoeddi'r Comisiwn yn ei gwneud yn glir beth oedd yn cael ei gyhoeddi a beth nad oedd yn cael ei gyhoeddi. **Cytunwyd** y bydd y cynllun cyhoeddi yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

10.5. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn ychwanegu'r cynllun cyhoeddi i agenda cyfarfod mis Chwefror.

10.6. Dywedodd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni y bydd y cynlluniau cychwynnol yn barod i'w hystyried erbyn dechrau mis Mawrth ac y gallent gymryd nifer o ddiwrnodau i'w hystyried. **Cytunwyd** y bydd nifer o gyfarfodydd gyda'r nos yn cael eu cynnal i ystyried y cynigion cychwynnol ac y bydd y rhain yn cael eu cynnal fesul cam.

10.7. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn anfon awgrymiadau at Aelodau ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd i ddod.

## 11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

11.1. Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 23 Chwefror 2021.